# Ein siarter cwsmer

Adran Gwaith a Phensiynau

Dywedoch wrthym beth sy'n bwysig i chi:

## Cael eich trin yn dda

Gallwch ymddiried ynom i:

- Gwneud yr hyn yr ydym yn dweud y byddwn yn ei wneud
- Bod yn ddefnyddiol, yn gwrtais, a'ch trin yn deg a chyda pharch
- Ceisio ddeall eich amgylchiadau
- Dilyn prosesau'n gywir
- Dweud wrthych beth i'w wneud nesaf os ydych yn anfodlon â'r ffordd y cawsoch eich trin
- Diogelu eich gwybodaeth bersonol (bydd ein 'Siarter wybodaeth' yn dweud sut wrthych).
- Ymchwilio i bob adroddiad o dwyll, er mwyn amddiffyn arian cyhoeddus.

## Cael pethau'n iawn

Byddwn yn:

- Rhoi'r penderfyniad, gwybodaeth neu daliad cywir i chi
- Esbonio pethau'n glir os nad yw'r canlyniad yr hyn y byddech yn gobeithio amdano
- Ymddiheuro ac unioni pethau os gwnawn gamgymeriad
- Defnyddio eich adborth i wella sut rydym yn gwneud pethau

## Rhoi gwybodaeth i chi

Byddwn yn:

- Delio â'ch cais y tro cyntaf y byddwch yn cysylltu â ni, neu cyn gynted ag y gallwn
- Dweud wrthych beth fydd yn digwydd nesaf, ac erbyn pryd
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd

## Hawdd i gysylltu

Byddwn yn:

- Darparu mwy o'n gwasanaethau ar-lein i'w defnyddio ar amser sy'n gyfleus i chi
- Cyhoeddi gwybodaeth am fudd-daliadau a gwasanaethau ar-lein yn GOV.UK/cymraeg
- Esbonio'n glir sut i gysylltu â ni mewn ffyrdd eraill

## Yn gyfnewid am hyn, mae angen i chi:

- Rhoi'r wybodaeth gywir i ni ar yr adeg gywir
- Dweud wrthym pan fydd rhywbeth yn newid
- Bod ar amser ar gyfer unrhyw apwyntiadau
- Trin ein staff â pharch

**DWPCHARTERW** | f3.0 (Ebrill 2014)